**Pwyllgor Busnes** **BC198-01(terfynol)**

COFNODION CYFARFOD

**Dyddiad:** 5 Mehefin 2001
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol y Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, YP/y Trefnydd
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

1.2 Croesawodd y Dirprwy Lywydd Ddirprwy Glerc newydd y Pwyllgor Busnes, Adrian Green

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC167-01(terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan nad oedd sylwadau pellach caent eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC190-01 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd drafft o'r cofnodion i'r Pwyllgor. Awgrymwyd y dylid ymgorffori newid bach i'r fersiwn derfynol a'i chyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod nesaf.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi

3.1 **Paragraff 3.3.** Cadarnhaodd Andrew George bod canllawiau ynghylch deisebau wedi'u hailgyhoeddi. Byddai'r Dirprwy Lywydd nawr yn eu cyfeirio at Grŵp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad.

3.2 **Paragraff 4.4.** Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi penderfynu cyfeirio Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001 at bwyllgor pwnc gan nad oedd Nerys Arch wedi dweud faint o amser a gymerai i ddod â'r Gorchymyn i rym.

3.3 **Paragraff 5.2** Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y gwelliannau i'r canllawiau diwygiedig ar gyflwyno cwestiynau i'r Cynulliad a'r ffurflen gyflwyno yn ystod y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

3.4 **Paragraff 5.3** Byddai'r Trefnydd yn trafod y weithdrefn ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog gydag ef y diwrnod wedyn. **Gweithredu: Y Trefnydd i adrodd yn ôl.**

## 4. Is-Ddeddfwriaeth

4.1 Cadarnhaodd Marion Stapleton nad oedd Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2001 ar gael eto. Byddai Nerys Arch yn gallu rhoi mwy o fanylion yr wythnos nesaf.

4.2 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapurau BC192-01 i BC195-01 a roddai gyngor Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch trin pedwar darn o ddeddfwriaeth ddrafft. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r argymhellion i beidio ag anfon unrhyw orchymyn drafft at bwyllgorau pwnc a'u bod yn cytuno y dylai pob un ddilyn y weithdrefn a argymhellwyd. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd yn sgîl hynny nad oedd angen cyfeirio gorchmynion drafft canlynol at bwyllgor pwnc:**

- **Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Addysg Bellach) (Cymru) 2001** (BC192-01) *Gweithdrefn Safonol.*

- **Rheoliadau Addysg (y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygiad) (Cymru) 2001** (BC193-01) *Gweithdrefn Gyflymach.*

- **Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001** (BC194-01) *Gweithdrefn Gyflymach.*

- **Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001** (BC195-01) *Gweithdrefn Gyflymach.*

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

5.1 Dywedodd David Lambert y trefnwyd iddo gyflwyno'i bapur ynghylch gweithdrefnau deddfwriaethol y Cynulliad yng nghyfarfod nesaf Grŵp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad. Byddai'r Cwnsler Cyffredinol a John Turnbull hefyd yn rhoi tystiolaeth.

## 6. Pwyllgorau

6.1 Bu i Marie Knox atgoffa'r Pwyllgor y byddai'n bryd newid cadeiryddion y Pwyllgorau Rhanbarth cyn bo hir a phan ddeuai'r amser hwnnw, y dylid cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ynghylch adroddiadau'r Pwyllgorau Rhanbarth. Y llynedd, digwyddodd hyn ar 28 Mehefin. Nodwyd mai mater i'r Pwyllgor perthnasol yw ethol cadeirydd y Pwyllgor Rhanbarth.
**GWEITHREDU: Marion Stapleton i drefnu amser ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn**

## 7. Busnes yn yr Arfaeth

### Busnes yr wythnos hon

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC196-01 a roddai fanylion y materion y cytunwyd i'w trafod yn y Cynulliad yr wythnos hon. Gofynnodd William Graham a fyddai datganiad neu ddadl ynghylch y Dirprwy Brif Weinidog a CBAC. Dywedodd Andrew Davies nad oedd sôn bod un ar y gweill. Dywedodd y Dirprwy Lywydd mai mater i'r Llywydd fyddai ystyried ceisiadau am ddadleuon brys.

### Datganiad Busnes Drafft

7.2 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC197-01).

7.3 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ynghylch ei ddatganiad arfaethedig ar drefniant busnes y Cynulliad yn yr wythnosau yn cychwyn ar ddydd Mawrth 12, 19 a 26 Mehefin oedd y dylai symud yn ei flaen fel yr amlinellwyd yn y datganiad busnes drafft.

7.4 Dywedodd y Trefnydd hefyd y gwneir cynnig ar 12 Mehefin i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio ac ar 19 Mehefin byddai cynnig i ddiwygio Adroddiad Grant Arbennig Rhif 7 mewn perthynas â darpariaeth ariannol ar gyfer y busnesau a oedd wedi dioddef yn sgîl Clwy'r Traed a'r Genau.

## 8. Materion wedi'u cyfeirio o'r cyfarfod llawn

8.1 Cododd y Dirprwy Lywydd y cynnig diddymu
a gyflwynodd Glyn Davies mewn perthynas â Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) 2001 (NNDM 663). Gofynnodd i'r Trefnydd pa bryd y gellid cynnal dadl ynghylch y mater. Dywedodd y Trefnydd bod hyn dan ystyriaeth ac y byddai'n ceisio penderfyniad ar y mater mor fuan ag y bo modd. Dywedodd Jocelyn Davies bod darpariaeth fachlud yn y rheoliadau a olygai pe penderfynid cynnal dadl y byddai'n rhaid ei chynnal cyn y diwrnod hwnnw. Nodwyd mai 30 Gorffennaf 2001 oedd y dyddiad.
**GWEITHREDU: Y Trefnydd**

**9. Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog**

Dim

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

Dim

**11. Unrhyw fater arall**

Dim

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**